Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau
Cynllun Rholiedig 3 blynedd
(2009/10-2011/12)

Ebrill 2009

Rhagymadrodd

Mae pobl sydd yn camddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill yn gwneud niwed sylweddol iddynt eu hunain, eu teuluoedd a'u ffrindiau ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae cost y niwed yma yn achosi anghydraddoldebau mewn iechyd a lles rhwng unigolion a rhwng cymunedau.

Mae Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (TGGS) Gwynedd yn bartneriaeth statudol, mae'n cynnwys nifer o sefydliadau megis yr Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Tan, Heddlu, Prawf, Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a darparwyr gwasanaethau eraill. Mae'r sefydliadau yma yn dod at ei gilydd i ffurfio a gweithredu y cynllun tair blynedd roliedig yma. Mae'r bartneriaeth yn derbyn grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gomisiynu triniaethau priodol a gwasanaethau ataliol.

Felly yn unol a Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru 2008 – 2018 "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed" Llywodraeth y Cynulliad mae TGGS Gwynedd wedi cynhyrchu cynllun tair blynedd, sydd yn ategu gwaith y partneriaid unigol i fynd i'r afael a'r broblem o gamddefnyddio sylweddau yng Ngwynedd.

Mae'r cynllun yn rhestru gwaith y tîm ar bedwar maes penodol sef:

Maes gweithredu 1 - Atal Niwed

Nod y maes gweithredu hwn yw helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i beidio â chamddefnyddio sylweddau, neu leihau'r camddefnydd, trwy gyflwyno gwybodaeth iddynt am y niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, i'w teuluoedd ac i'r gymuned ehangach (mae hyn yn cynnwys gohirio'r oedran y mae plant a phobl ifanc yn dechrau yfed alcohol). Mae hefyd yn cynnwys gweithredu i ganfod pobl sydd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau ac sydd angen cefnogaeth, eu cyfeirio at wybodaeth bellach neu weithgareddau dargyfeiriol.

Maes gweithredu 2 – Cefnogaeth i Gamddefnyddwyr Sylweddau

Nod y maes gweithredu hwn yw galluogi, cefnogi ac annog camddefnyddwyr sylweddau i leihau'r niwed y maent yn ei achosi iddynt eu hunain, i'w teuluoedd ac i'w cymunedau, er mwyn iddynt ddychwelyd i fywyd heb ddibyniaeth ar ddefnydd niweidiol o gyffuriau ac alcohol. Mae'n mynd i'r afael â'r gefnogaeth sydd ar gael i gamddefnyddwyr sylweddau gan gynnwys cyngor sylfaenol ac ehangach ar leihau niwed,

gwasanaeth estyn allan, atal llithro'n ôl a gwasanaethau eraill wedi'u hanelu at gael unigolion i dderbyn gwasanaeth a ddarperir o fewn y bedair haen gydnabyddedig. Mae hefyd yn cynnwys anghenion ehangach camddefnyddwyr sylweddau o ran gwasanaethau cefnogol a chofleidiol i'w helpu gael llety, addysg, gwaith a hyfforddiant - y pethau sy'n hanfodol i helpu iachâd ac i ddal ati.

Maes gweithredu 3 – Cefnogi Teuluoedd

Nod y maes gweithredu hwn yw lleihau'r perygl o niwed i blant ac oedolion o ganlyniad i ymddygiad aelod o'r teulu sydd yn camddefnyddio sylweddau, e.e. rhiant, partner, perthynas boed yn oedolyn neu blentyn. Rydym yn ystyried fod y maes gweithredu hwn yn hanfodol i gefnogi cyflwyniad strategaethau tlodi plant a thrais yn y cartref Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Maes gweithredu 4 – Mynd i'r Afael â'r Rheini Sy'n Cyflenwi Cyffuriau ac Amddiffyn Unigolion a Chymunedau

Nod y maes gweithredu hwn yw lleihau'r niwed a achosir i unigolion a chymunedau o ganlyniad i drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau trwy daclo argaeledd cyffuriau anghyfreithlon a'r angen i reoli'r argaeledd alcohol a sylweddau eraill, gan gynnwys gwerthu alcohol neu doddyddion i bobl ifanc.

Caiff y cynllun yma ei adolygu'n achlysurol/flynyddol i asesu unrhyw newidiadau yn ymwneud a chamddefnyddio sylweddau ac effeithiolrwydd ein gweithgareddau ynglŷn a'r sefyllfa a'i addasu'n briodol.

Maes gweithredu 1

Atal Niwed

Nod y maes gweithredu hwn yw helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i beidio â chamddefnyddio sylweddau, neu leihau'r camddefnydd, trwy gyflwyno gwybodaeth iddynt am y niwed y gall camddefnyddio sylweddau ei achosi i'w hiechyd, i'w teuluoedd ac i'r gymuned ehangach (mae hyn yn cynnwys gohirio'r oedran y mae plant a phobl ifanc yn dechrau yfed alcohol). Mae hefyd yn cynnwys gweithredu i ganfod pobl sydd mewn perygl o gamddefnyddio sylweddau ac sydd angen cefnogaeth, eu cyfeirio at wybodaeth bellach neu weithgareddau dargyfeiriol.

Darparu gwybodaeth

- **Plant a phobl ifanc**
- **Oedolion / pobl hŷn**

Adnabod/Ymyrraeth gynnar a hynny wedi'i dargedu

- **Plant a phobl ifanc**
- **Oedolion / pobl hŷn**

IS-GATEGORI'R PENNAWD	CANLYNIAD (targedau)	YR HYN Y BWRIEDIR EI WNEUD	CYFRIFOLDEB ASIANTAETH ARWEINIOL	MONITRO A GWERTHUSO	DYDDIADAU CWBLHAU 2008-2011
Cyflwyno gwybodaeth - Plant a phobl ifanc	Sicrhau bod gwybodaeth briodol a chyson ar gael i bob plentyn 5 – 11 mlwydd oed ynghylch camddefnyddio sylweddau.	Mapio gwybodaeth a chyngor cyfredol sydd ar gael mewn ysgolion cynradd. Ystyried canfyddiadau adroddiad diweddar Estyn, adolygu cylchlythyr 17/02, canfod beth sydd ar gael yn lleol a chylchredeg llyfryn adnoddau ac arfer da lleol i ysgolion.	Sefydlu Is-grŵp Tîm Camddefnyddio Sylweddau (SMAT). Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Hwylusydd Swyddog Cyswllt Ysgolion, Adran Addysg, Cydlynydd Ysgolion Iach, Hwylusydd Iechyd.	Sefydlu grŵp. Cwblhau'r mapio. Llyfryn adnoddau.	Mehefin 09 Rhagfyr 09 2009/10
		Dosbarthu 'Paid Cyffwrdd – Dwed' i nifer briodol o ysgolion cynradd yng Ngwynedd.	Ariennir gan SMAT/Adran Addysg. Cyflawnir gan CAIS.	Rhaglen gyflawni tair blynedd.	2012
		Diweddaru'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn unol â chanllawiau'r cynulliad a sicrhau y cyflawnir yn lleol, gan sicrhau bod yr	Cydlynydd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Parhau i gyflawni.	2009/10 2009/12

- Oedolion a phobl hŷn		agweddau alcohol, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a chysylltiad y rhieni yn cael eu hadrodd i'r SMAT er ystyriaeth.			
		Cyflwyno gwybodaeth a chyngor priodol ynghylch camddefnyddio sylweddau trwy wasanaeth allgymorth yn y gymuned.	Ariennir gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP). Cyflawnir gan Y Groes Goch.	Parhau i gyflawni.	2009/10
	Sicrhau bod gwybodaeth briodol a chyson ar gael i'r holl blant a phobl ifanc 11 – 18 mlwydd oed ynghylch camddefnyddio sylweddau.	Mapio'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael ar hyn o bryd trwy'r ysgolion uwchradd. Ystyried canfyddiadau adroddiad diweddar Estyn, adolygu cylchlythyr 17/02, canfod beth sydd ar gael yn lleol a chylchredeg llyfryn adnoddau ac arfer da lleol i ysgolion.	Sefydlu Is-Grŵp SMAT. Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Hwylusydd Swyddog Cyswllt Ysgolion, Adran Addysg, Cydlynydd Ysgolion Iach, Hwylusydd Iechyd.	Sefydlu grŵp. Cwblhau'r mapio. Llyfryn adnoddau.	Mehefin 09 Rhagfyr 09 2009/10
		Gwerthuso canlyniadau cynhadledd Trip Trap 2008/09 a gweithio gyda'r grŵp Cymunedau yn Erbyn Camddefnyddio Sylweddau ym Meirionnydd i ddatblygu a gweithredu rhaglen 2009/10.	Cymunedau yn Erbyn Camddefnyddio Sylweddau a Hwylusydd SMAT.	Cwblhau'r gwerthuso. Rhaglen newydd.	Mai / Mehefin 09 Medi 09

		Diweddaru'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn unol â chanllawiau'r cynulliad a sicrhau y cyflawnir yn lleol, gan sicrhau bod yr agweddau alcohol, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a chysylltiad y rhieni yn cael eu hadrodd i'r SMAT er ystyriaeth.	Cydlynydd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Parhau i gyflawni.	2009/10 2009/12
		Cyflwyno gwybodaeth a chyngor priodol ynghylch camddefnyddio sylweddau trwy wasanaeth allgymorth yn y gymuned.	Ariennir gan CSP. Cyflawnir gan Y Groes Goch.	Parhau i gyflawni.	2009/10
		Gweithio gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i ganfod ffyrdd addas ac arloesol i gyflwyno gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc.	Swyddogion arweiniol CSP, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.	Nodi'r dewisiadau.	Awst 2009
		Gweithio gyda Chymunedau'n Gyntaf a Chymunedau yn Erbyn Camddefnyddio Sylweddau ym Mlaenau Ffestiniog i gynnal peilot y	Cymunedau'n Gyntaf, Cymunedau yn Erbyn Camddefnyddio Sylweddau a Hwylusydd SMAT.		

	fenter *Drug Proof Your Kids* ar gyfer rhieni.			
Ymateb i gynllun gweithredu tair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddo ddatblygu.	Ymateb yn briodol i gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran: • Peilot Addysg Cyffuriau Lloegr – y canfyddiadau • Hyfforddi athrawon am gamddefnyddio sylweddau – adolygiad • Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan – addasiadau • Peilot menter rhieni - adolygiad • Rôl y Gwasanaeth Ieuenctid – adolygiad • Rhaglen Cryfhau Teuluoedd – gwerthuso.	Llywodraeth Cynulliad Cymru a SMAT Gwynedd.	Dyddiadau targed Llywodraeth Cynulliad Cymru.	2009 2009 2010 2010 2010 2009
Sicrhau bod gwybodaeth briodol a chyson ar gael i bobl ifanc 18 – 25 mlwydd oed, oedolion a phobl hŷn ynghylch	Nodi neges gyson ynghylch alcohol, i'w chyflwyno trwy wahanol ddulliau, gan gynnwys: • Gwefan Fforwm Camddefnyddio	Is-grŵp Alcohol.	Gwaith parhaus.	2009/12

	camddefnyddio sylweddau.	Sylweddau Gogledd Cymru • Posteri a matiau cwrw ynghylch goryfed mewn pyliau, wedi'u dylunio'n lleol • Ymgyrchoedd papur newydd a radio • Datblygu posteri a thaflenni amrywiol ar y cyd Hefyd, ymchwilio i fathau newydd o gyflwyno'r neges megis hysbysfyrddau ar gerbydau, sgriniau cymunedol, negeseuon testun, ac ati.			
		Cyflwyno gwybodaeth i gamddefnyddwyr sylweddau, eu gofalwyr a'u teuluoedd, trwy'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ar haen 2 a 3. Nifer o daflenni gwybodaeth ar gael trwy'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau a gwasanaeth cwnsela CAIS.	Ariennir gan SMAT a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Cyflawnir gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau a CAIS.	Gwaith parhaus.	2009/12
		Cysylltu â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i ganfod beth yw'r angen o ran	Rheolwr Rhawd Gymunedol y Brifysgol.	Gwneud cysylltiadau â sefydliadau chweched dosbarth ac	Medi 09

		anghenion gwybodaeth penodol (h.y. eisoes wedi nodi bod angen gwybodaeth gliriach ynghylch canabis yn y brifysgol).	Hwylusydd SMAT.	addysg bellach. Datblygiadau parhaus gyda'r Brifysgol.	2009/10
Adnabod/ Ymyrraeth gynnar a hynny wedi'i dargedu - Plant a phobl ifanc	Ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer y rhai hynny sydd wedi'u hadnabod fel bod mewn mwy o berygl o gamddefnyddio sylweddau.	Mae'r Bartneriaeth eisoes wedi nodi tair carfan arwyddocaol • Plant yng ngofal yr awdurdod lleol • Plant i rieni / gofalwyr sy'n camddefnyddio sylweddau • Troseddwyr ifanc Mae tri gweithiwr penodol wedi cael eu penodi – gweithiwr diagnosis deuol ar gyfer gwasanaethau plant, gweithiwr plant a gweithiwr cefnogi pobl ifanc ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid – oll yn gweithio o fewn y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.	Ariennir gan CSP a SMAT. Cyflawnir gan y gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.	Gwaith parhaus.	2009/10
		Gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig gwasanaethau plant, i ganfod bylchau o ran gallu ac	Swyddog Arweiniol, hwylusydd a gwasanaethau cymdeithasol.	Cael ei weithredu fel rhan o raglen prif ffrydio adran 17.	2009/10

		adnoddau yn y gwasanaeth mewn perthynas ag ymdrin â chleientiaid sy'n camddefnyddio sylweddau. Yna, datblygu rhaglen hyfforddi / adnoddau ar gyfer y gwasanaeth haen 1 hwn.			
- Oedolion a phobl hŷn	Ymyriadau camddefnyddio alcohol wedi'u targedu ar gyfer y rhai hynny sydd wedi'u hadnabod fel rhai sydd angen ymyrraeth gynnar.	Ymyriadau byr ar gael o fewn gofal sylfaenol, i'w defnyddio gan feddygon teulu sy'n cyfeirio cleientiaid addas.	Ariennir gan SMAT. Cyflawnir gan wasanaethau cwnsela gofal sylfaenol Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru.	Gwaith parhaus.	2009/10
		Darparu gwybodaeth a sesiynau ymyriadau byr i gamddefnyddwyr sylweddau trwy SMS a CAIS ar haen 2 a 3. Nifer o daflenni gwybodaeth ar gael trwy SMS a gwasanaeth cwnsela CAIS.	Ariennir gan SMAT a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Cyflawnir gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau a CAIS.	Gwaith parhaus.	2009/12
	Sicrhau bod rhaglen o becynnau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ynghylch	Gwerthuso'r ddarpariaeth bresennol megis cwrs ymwybyddiaeth deuddydd a chwrs hyfforddi athrawon. Adolygu'r sefyllfa bresennol o ran yr angen a'r gallu i	Hwylusydd SMAT i'w symud ymlaen trwy SMAT Gwynedd ac Is-grŵp Hyfforddiant Fforwm Camddefnyddio Sylweddau Cymru.	Nodi'r angen a'r dewisiadau.	2009/10

	camddefnyddio sylweddau ar gael ar y pedair haen.	ddarparu cyrsiau hyfforddi addas. Mae'r dewisiadau i'w hystyried yn cynnwys: • Datblygu strwythurau cyflawni ar lefel gogledd Cymru gyfan (cyllidebau cyfun) • Canfod adnoddau ychwanegol i gyflogi hwylusydd hyfforddi • Prynu pecynnau hyfforddi allanol • Canfod capasiti mewn asiantaethau partner i ddarparu hyfforddiant.			
	Cydnabod a chanfod materion ynghylch camddefnyddio sylweddau sy'n benodol i bobl hŷn, ac ymateb i'r anghenion hynny.	Cymryd rhan yn yr adolygiad cenedlaethol o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn, yn ôl cyfarwyddiadau LlCC. Datblygu targed lleol i gyflawni'r fenter 'Yfed yn Gall, Heneiddio'n Dda', ynghyd â swyddog arweiniol Strategaeth Pobl Hŷn Gwynedd	Llywodraeth Cynulliad Cymru a SMAT Gwynedd. Swyddog Arweiniol Camddefnyddio Sylweddau a Swyddog Arweiniol Strategaeth Pobl Hŷn.	Dyddiad targed Llywodraeth Cynulliad Cymru.	2009 2009/11

Maes gweithredu 2

Cefnogaeth i Gamddefnyddwyr Sylweddau

Nod y maes gweithredu hwn yw galluogi, cefnogi ac annog camddefnyddwyr sylweddau i leihau'r niwed y maent yn ei achosi iddynt eu hunain, i'w teuluoedd ac i'w cymunedau, er mwyn iddynt ddychwelyd i fywyd heb ddibyniaeth ar ddefnydd niweidiol o gyffuriau ac alcohol. Mae'n mynd i'r afael â'r gefnogaeth sydd ar gael i gamddefnyddwyr sylweddau gan gynnwys cyngor sylfaenol ac ehangach ar leihau niwed, gwasanaeth estyn allan, atal llithro'n ôl a gwasanaethau eraill wedi'u hanelu a gael unigolion i dderbyn gwasanaeth a ddarperir o fewn y bedair haen gydnabyddedig. Mae hefyd yn cynnwys anghenion ehangach camddefnyddwyr sylweddau o ran gwasanaethau cefnogol a chofleidiol i'w helpu gael llety, addysg, gwaith a hyfforddiant - y pethau sy'n hanfodol i

Ymyriadau Haen 1

– Gwybodaeth a chyngor ynghylch cyffuriau / alcohol, gwasanaethau cyffredinol yn sgrinio a chyfeirio

Ymyriadau Haen 2

– Ymyriadau penodol i gyffuriau / alcohol, mynediad agored, heb fod yn ofal wedi'i gynllunio

Ymyriadau Haen 3

– Triniaethau ar gyfer cyffuriau / alcohol, gofal wedi'i gynllunio strwythuredig

Ymyriadau Haen 4

- Triniaethau arbenigol ar gyfer cyffuriau / alcohol i gleifion mewnol ac ailsefydlu

IS-GATEGORI'R PENNAWD	CANLYNIAD (targedau)	YR HYN Y BWRIEDIR EI WNEUD	CYFRIFOLDEB ASIANTAETH ARWEINIOL	MONITRO A GWERTHUSO	DYDDIADAU CWBLHAU 2008-2011
Ymyriadau Haen 1 – Gwybodaeth a chyngor ynghylch cyffuriau / alcohol, gwasanaethau cyffredinol yn sgrinio a chyfeirio	Darparu ymyriadau cyffuriau ac alcohol priodol mewn sefyllfaoedd haen 1.	Gweler yr adran flaenorol (Atal Niwed) am fanylion ynghylch gwybodaeth gyflawni.			
	Cryfhau gallu gwasanaethau haen 1 i ymdrin â chyflwyno cleientiaid sy'n camddefnyddio sylweddau.	Ymateb i Gynllun Datblygu'r Gweithlu Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â gwasanaethau haen 1, a gweithredu'r cynllun hwnnw.	Llywodraeth Cynulliad Cymru a SMAT Gwynedd.	Dyddiad targed Llywodraeth Cynulliad Cymru.	2009
		Gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig gwasanaethau plant, i ganfod bylchau yn eu gallu a'u hadnoddau wrth ymdrin â chleientiaid sy'n camddefnyddio sylweddau. Yna, datblygu rhaglen hyfforddi / adnoddau ar gyfer y gwasanaeth haen 1 hwn.	Swyddog Arweiniol, hwylusydd a gwasanaethau cymdeithasol.	Gweithredu fel rhan o raglen prif ffrydio adran 17.	2009/10
		Diweddaru Cyfarwyddiadur gwasanaethau Gwynedd a Môn ar gyfer gweithwyr proffesiynol (gan gynnwys	Hwylusydd SMAT.	I'w gynnal pan fydd adnoddau ariannol ar gael.	2009/12

		gwasanaethau haen 1).			
	Cyfuno gwasanaethau cofleidiol ar draws y ddarpariaeth haen 1 er mwyn ateb anghenion cleientiaid sy'n camddefnyddio sylweddau.	Ymateb i'r fframwaith triniaethau camddefnyddio sylweddau o ran datblygiad personol parhaus, i gynnwys • Gwerthuso dichonoldeb cael Siop un Stop ar gyfer gwasanaethau cofleidiol • Gwerthuso'r cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau dargyfeirio ar haen 1.	SMAT Gwynedd.	Gwaith parhaus.	2009/12
Ymyriadau Haen 2 – Ymyriadau penodol i gyffuriau / alcohol, mynediad agored, heb fod yn ofal wedi'i gynllunio	Datblygu gwasanaethau lleihau niwed digonol a phriodol ledled Gwynedd.	Darparu gwasanaethau cyfnewid chwistrellau (NSE) mewn fferyllfeydd. Mae 14 fferyllfa yng Ngwynedd ar hyn o bryd sydd angen eu cynnal, a'u datblygu o bosib.	Ariennir gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd. Cyflawnir gan fferyllfeydd annibynnol. Cydlynir gan Wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.	Gwaith parhaus.	2009/12

		Darparu gwasanaethau allgymorth, gan gynnwys NSE, cyngor lleihau niwed a darpariaeth Hepatitis. Dylid adolygu'r gwasanaeth hwn, ac o bosib, ei ail-gomisiynu ar lefel rhanbarthol (Gogledd Cymru).	Ariennir gan SMAT. Cyflawnir gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru. Grŵp Cynghori Comisiynu Gogledd Cymru.	Gwaith parhaus.	2009/10 2010/11
		Darparu gwasanaeth casglu chwistrellau i ymateb yn briodol i chwistrellau a waredir. Datblygu mentrau a phrosiectau sy'n lleihau'r nifer o chwistrellau sydd wedi'u gwaredu mewn mannau cyhoeddus.	Awdurdod Lleol gyda chyfraniad ariannol gan SMAT. SMAT Gwynedd.	Gwaith parhaus.	2010 2009/12
	Darparu gwasanaethau cwnsela ymyriad byr a chwnsela ledled Gwynedd.	Darparu sesiynau gwybodaeth ac ymyriadau byr i gamddefnyddwyr sylweddau trwy SMS a CAIS ar haenau 2 a 3. Nifer o daflenni gwybodaeth ar gael trwy wasanaeth cwnsela SMS a CAIS.	Ariennir gan SMAT a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Cyflawnir gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau a CAIS.	Gwaith parhaus.	2009/12
		Ymyriad byr ar gael mewn sefydliad gofal sylfaenol, i'w	Ariennir gan SMAT.	Gwaith parhaus.	2009/10

		ddefnyddio gan feddygon teulu sy'n cyfeirio cleientiaid priodol.	Cyflawnir gan wasanaethau cwnsela gofal sylfaenol Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru.		
	Cyfrannu tuag at y fframwaith rhanbarthol ar gyfer adolygu marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.	Grŵp Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau Gogledd Cymru wedi'i sefydlu gyda chylch gwaith i leihau nifer y marwolaethau trwy ganfod cryfderau a gwendidau gwasanaethau presennol.	Holl SMAT Gogledd Cymru. Cydlynir gan Gydlynydd Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru.	Gwaith parhaus.	2009/12
	Darparu Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP) pwrpasol ledled Gwynedd.	Cymryd rhan yn natblygiad parhaus gwasanaethau DIP ar draws Gogledd Cymru.	Bwrdd DIP Gogledd Cymru. SMAT Gwynedd.	Gwaith parhaus.	2009/10
	Hybu cefnogaeth a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth.	Bod yn rhan o ddatblygu strategaeth defnyddwyr gwasanaeth Gogledd Cymru.	Holl SMAT Gogledd Cymru.	Dirwyn y strategaeth i ben.	2009/10
		Hwyluso datblygiad rhwydweithiau cefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn unol â chyfleoedd priodol ac adnoddau a ganfuwyd.	Hwylusydd SMAT Gwynedd. Tîm *Word On The Street* (WOTS).	Gwaith parhaus.	2009/12

Ymyriadau Haen 3 –	Comisiynu gwasanaethau triniaeth effeithiol ac	Yn unol â bwriadau strategaeth comisiynu Gwynedd ac Ynys Môn, datblygu manylion	Ariennir gan SMAT Gwynedd ac Ynys Môn.	Manylion y gwasanaeth ar gael.	Ebrill 2009

Triniaeth ar gyfer cyffuriau / alcohol, gofal wedi'i gynllunio strwythuredig	o ansawdd da ar gyfer pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.	gwasanaeth ar sail canlyniadau ar gyfer gwasanaethau triniaeth a brynir gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. Y gwasanaethau i gynnwys: • Llwybrau gofal a chyfeirio • Meddyginiaeth gyfnewid a threfniadau rhannu'r gofal • Detocs yn y gymuned • Lleihau niwed ac atal llithro'n ôl • Gwasanaethau penodol i bobl ifanc • Diagnosis deuol.	Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Cyflawnir gan Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru.	Monitro bob chwarter, adolygu'n flynyddol.	Ebrill 2010
	Darpariaeth feddygol arbenigol mewn clinig a sefydliadau rhannu'r gofal cymunedol.	Gweithio gyda'r grŵp rhannu'r gofal i ddatblygu a chydlynu'r ddarpariaeth rhannu'r gofal. Cynllunio darpariaeth meddyg teulu priodol ar gyfer clinigau cyffuriau ac alcohol.	Ariennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, Cyfiawnder Troseddol a SMAT Gwynedd. Cyflawnir gan grŵp rhannu'r gofal Gwynedd ac Ynys Môn.	Gwaith parhaus gyda chlinigau alcohol ychwanegol.	2008/09
	Darparu gwasanaeth bydwreigiaeth arbenigol ar gyfer	Cael gwasanaeth bydwreigiaeth arbenigol ledled gogledd Cymru ar gyfer cleientiaid	Ariennir gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd.	Darpariaeth barhaus.	2009/10

	cleientiaid sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol.	beichiog sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol a hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill ynghylch sut i ymdrin â'r cleientiaid hyn.	Cyflawnir gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru.		
	Asesu'r ddarpariaeth bresennol a'r angen i wasanaethau ymdrin â dibyniaeth ar feddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter.	Mapio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer meddyginiaethau ar bresgripsiwn a meddyginiaethau dros y cownter (gan gynnwys steroidau anabolig a thoddyddion).	Hwylusydd SMAT gyda mewnbwn partneriaid priodol.	Cwblhau'r mapio.	2009/10
Ymyriadau Haen 4 – Triniaeth arbennigol ar gyfer cyffuriau / alcohol i gleifion mewnol ac ailsefydlu	Darparu gwasanaeth detocs priodol i gleientiaid sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol.	Defnyddio pob darpariaeth detocs posib i ateb anghenion cleientiaid unigol, gan gynnwys • Uned detocs Hafan Wen • Darpariaeth detocs yn Ysbyty Gwynedd • Detocs yn y gymuned ar gyfer cleientiaid sydd â phroblem cyffuriau • Detocs alcohol yn unol â'r model alcohol newydd yn Ysbyty	Ariennir gan Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd a SMAT Gwynedd.	Darpariaeth barhaus.	2009/12

		Gwynedd.			
	Darparu gwasanaeth ailsefydlu priodol i gleientiaid sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol.	Defnyddio pob darpariaeth ailsefydlu posib i ateb anghenion cleientiaid unigol, gan gynnwys • Defnyddio cyfleusterau ailsefydlu priodol y gellir eu hariannu gan gyllidebau ailsefydlu'r Awdurdod lleol • Defnyddio rhaglenni lleol 12 cam fel y bo'n briodol megis Touchstone 12 yng Nghonwy.	Ariennir gan Awdurdod Lleol Gwynedd. Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn asesu a lleoli.	Darpariaeth barhaus yn dibynnu ar gyllidebau ailsefydlu a detocs parhaus.	2009/10
	Adolygu gofynion Haen 4 yn lleol, yn unol â chyfarwyddebau Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Ystyried y ddogfen adolygu Haen 4 Cymru gyfan ac asesu'r angen yng Ngwynedd.	Hwylusydd SMAT i arwain gyda mewnbwn partneriaid perthnasol. Posibilrwydd defnyddio arian llithriant SMAT i gomisiynu'r gwaith hwn.	Cynnal adolygiad yn ystod 2009/10.	2010/11

Maes Gweithredu 3

Cefnogi Teuluoedd

Nod y maes gweithredu hwn yw lleihau'r perygl o niwed i blant ac oedolion o ganlyniad i ymddygiad aelod o'r teulu sydd yn camddefnyddio sylweddau, e.e. rhiant, partner, perthynas boed yn oedolyn neu blentyn. Rydym yn ystyried fod y maes gweithredu hwn yn hanfodol i gefnogi cyflwyniad strategaethau tlodi plant a thrais yn y cartref Llywodraeth Cynulliad Cymru.



IS-GATEGORI'R PENNAWD	CANLYNIAD (targedau)	GWEITHGAREDDAU ATAL YR HYN Y BWRIEDIR EI WNEUD	CYFRIFOLDEB ASIANTAETH ARWEINIOL	MONITRO A GWERTHUSO	DYDDIADAU CWBLHAU 2008-2011
Ymyriadau Teulu	Ymateb i gynllun gweithredu tair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddo ddatblygu.	Ymateb yn briodol i gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch: • Sefydlu gwasanaethau cefnogi teuluoedd integredig • Cyngor ynghylch protocolau byrddau diogelu plant • Canfyddiadau adolygiad project ymyriad buan gan rieni • Canfyddiadau modelau arfer da rhaglen therapi	Llywodraeth Cynulliad Cymru a SMAT Gwynedd.	Dyddiadau targed Llywodraeth Cynulliad Cymru.	2009/12 2009 2010 2009/10
		Cynnal cynllun peilot ym Mlaenau Ffestiniog o'r enw *How To Drug Proof Your Kids* sy'n cynnwys rhieni a'u plant yn cydweithio. Gwerthuso'r peilot a'i roi ar waith mewn ardaloedd eraill pe byddai adnoddau'n caniatáu	Hwylusydd SMAT, Cymunedau'n Gyntaf a Chymunedau yn Erbyn Camddefnyddio Sylweddau.	Cynllun peilot. Gwerthuso. Rhoi ar waith fesul cam.	Hydref 2009 Ebrill 2010 2010/12

	hynny.			
	Gweithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol i nodi bwriadau ynghylch mabwysiadu: • Gwasanaethau ymyriadau argyfwng • Gwasanaethau dulliau teulu cyfan.	Hwylusydd SMAT, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.	Nodi'r bwriadau.	2009/10
Ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer y rhai hynny sydd ag aelodau'r teulu sydd yn camddefnyddio sylweddau.	Mae'r Bartneriaeth eisoes wedi nodi tair carfan arwyddocaol • Plant yng ngofal awdurdod lleol • Plant rhieni / gofalwyr sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae tri gweithiwr penodol wedi cael eu penodi – gweithiwr diagnosis deuol ar gyfer gwasanaethau plant, gweithiwr plant a gweithiwr cefnogi pobl ifanc ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, oll yn gweithio o fewn y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau	Ariennir gan CSP a SMAT. Cyflawnir gan y gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.	Gwaith parhaus.	2009/10

		Gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig gwasanaethau plant, i ganfod bylchau mewn gallu ac adnoddau o fewn y gwasanaethau mewn perthynas ag ymdrin â chleientiaid sy'n camddefnyddio sylweddau. Yna, datblygu rhaglen hyfforddi / adnoddau ar gyfer y gwasanaeth haen 1 hwn.	Swyddog Arweiniol, hwylusydd a gwasanaethau cymdeithasol.	Gweithredir fel rhan o raglen prif ffrydio adran 17.	2009/10

Cefnogi Rhieni / Gofalwyr	Gweithredu modiwl gofalwyr a theuluoedd y fframwaith triniaethau, cyn belled ag a ganiateir gan yr adnoddau.	Adolygu'r ddogfen, mapio'r ddarpariaeth a'r bylchau a gosod targedau er mwyn gweithredu.	SMAT Gwynedd.	Adolygu'r ddogfen. Gweithredu.	2009/10 2009/12
		Cynnal cynllun peilot ym Mlaenau Ffestiniog i ddatblygu grŵp cefnogi teuluoedd ar gyfer y rhai hynny sydd ag aelodau'r teulu'n derbyn triniaeth am gamddefnyddio sylweddau. Gwerthuso'r peilot a'i roi ar	Hwylusydd SMAT, Cymunedau'n Gyntaf a Chymunedau yn Erbyn Camddefnyddio Sylweddau.	Cynllun peilot. Gwerthuso. Rhoi ar waith fesul cam.	Hydref 2009 Ebrill 2010 2010/12

		waith mewn ardaloedd eraill pe byddai adnoddau'n caniatáu hynny.			

Trais yn y Cartref	Gweithredu canllawiau darpariaeth trais yn y cartref o fewn y gwasanaeth fframwaith triniaethau.	Gweithredu canllawiau gwasanaeth fframwaith triniaethau trwy waith fforwm trais yn y cartref Gwynedd. Datgan y strategaeth trais yn y cartref: Canlyniadau - sicrhau bod gwasanaeth digonol ar gael i ddioddefwyr a'r sawl sy'n cyflawni trosedd, sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau Gweithredu - • Nodi'r angen a'r ddarpariaeth bresennol o fewn gwasanaethau i ddioddefwyr/y sawl sy'n cyflawni trosedd • Datblygu cynllun ymateb i fynd i'r afael â'r bylchau	Fforwm Trais yn y Cartref a SMAT Gwynedd.	Parhaus.	2009/12

		• Lobio os oes angen.			
		Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau i weithio gyda Chynhadledd Aml Asiantaethol Asesu Risg (MARAC).	Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau.	Parhaus.	2009/12

Maes Gweithredu 4

Mynd i'r Afael â'r Rheini Sy'n Cyflenwi Cyffuriau ac Amddiffyn Unigolion a Chymunedau

Nod y maes gweithredu hwn yw lleihau'r niwed a achosir i unigolion a chymunedau o ganlyniad i drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau trwy daclo argaeledd cyffuriau anghyfreithlon a'r angen i reoli'r argaeledd alcohol a sylweddau eraill, gan gynnwys gwerthu alcohol neu doddyddion i bobl ifanc.

Rheoli cyflenwi, gwerthu ac yfed alcohol

Targedu a chefnogi unigolion problemus (Troseddwyr Cyson)

IS-GATEGORI'R PENNAWD	CANLYNIAD (targedau)	GWEITHGAREDDAU ATAL YR HYN Y BWRIEDIR EI WNEUD	CYFRIFOLDEB ASIANTAETH ARWEINIOL	MONITRO A GWERTHUSO	DYDDIADAU CWBLHAU 2008-2011
Rheoli cyflenwi, gwerthu ac yfed alcohol	Rheoli economi'r nos yn effeithiol – gwerthu ac yfed alcohol yn benodol.	Gweithio mewn partneriaeth, trwy is-grŵp alcohol Gwynedd i ganfod cyfleoedd i gydweithio ar faterion megis • Yfed dan oed (prawf brynu) • Rheoli eiddo trwyddedig • Prawf brynu (alcohol/ toddyddion) • Ymwybyddiaeth alcohol a mentrau gwybodaeth.	Is-grŵp Alcohol.	Monitro trwy gynllun gweithredu 'byw' yr is-grŵp.	Gwaith parhaus.
	Defnyddio deddfwriaeth sydd ar gael yn briodol i reoli trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.	Ystyried y dewisiadau deddfwriaethol sydd ar gael i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn lle mae alcohol (neu gyffuriau) yn ffactor.	Cyngor Gwynedd. Heddlu Gogledd Cymru.		

IS-GATEGORI'R PENNAWD	CANLYNIAD (targedau)	YR HYN Y BWRIEDIR EI WNEUD	CYFRIFOLDEB ASIANTAETH ARWEINIOL	MONITRO A GWERTHUSO	DYDDIADAU CWBLHAU 2008-2011
Targedu a chefnogi unigolion problemus (Troseddwyr Cyson)	Cael proses mewn lle i fynd i'r afael â'r troseddwyr mwyaf cyson yn ein cymunedau, sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.	Gweithio ar draws y ffin gydag Ynys Môn i reoli'r strategaeth troseddwyr cyson, trwy'r grŵp rheoli ar y cyd, gan ganolbwyntio ar • Atal a rhwystro • Ailsefydlu ac ymsefydlu • Dal a chollfarnu • Y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau.	Bwrdd rheoli Gwynedd ac Ynys Môn.	Gwybodaeth werthuso chwarterol yn cael ei chyflwyno trwy'r bwrdd rheoli.	Gwaith parhaus.